Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Uned Deuluol Argel**

**Canolfan Deulu Argel**
**Heol Llansteffan**
**Tre-ioan**
**Caerfyrddin**
**SA31 3NQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/10/2023

# Uned Deuluol Argel

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br><br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Mehefin 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

terfynol heb ei gynoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Caiff anghenion y plant eu hystyried yn llawn a'u diddordebau eu gwerthfawrogi'n fawr. Maent yn teimlo'n hapus a diogel iawn yn y lleoliad, ac yn mynegi pa mor fodlon ydynt a faint maent yn mwynhau bod yno. Mae'r cyfleoedd chwarae a gynigir yn gyffrous i'r plant. Maent yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n hyrwyddo eu datblygiad, ac sy'n datblygu sgiliau annibyniaeth dda.

Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n diwallu anghenion y plant yn llawn mewn perthynas â llesiant, diogelwch a ffyrdd iach o fyw. Maent bob amser yn dangos parch, yn gartrefol a chadarnhaol iawn, gan ddangos cynhesrwydd, caredigrwydd a gofal tuag at y plant. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion unigol. Maent yn gweithio'n eithriadol o dda fel tîm, ac mae'r cyfathrebu a'r cydweithredu yn gadarnhaol iawn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau a pholisïau effeithiol iawn ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau yn llawn. Mae gweithdrefnau rhagorol ar waith ar gyfer asesu risgiau, ac ar gyfer goruchwylio'r plant yn y lleoliad. Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion y plant yn llawn ac yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd ar gyfer y plant y tu mewn a'r tu allan, ac mae'r adnoddau o ansawdd eithriadol o dda.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gadarn iawn ar gyfer dyfodol y lleoliad ac maent yn drefnus iawn. Mae'r trefniadau hunanwerthuso yn effeithiol iawn. Mae ganddynt weithdrefnau cadarn tu hwnt ar waith i sicrhau bod addasrwydd y staff a diogelwch yn cael ei flaenoriaethu. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bartneriaethau ardderchog â'r rhieni, y gofalwyr ac â'r asiantaethau allanol.

| Llesiant | Rhagorol |
|---|---|

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau'n hyderus. Caiff eu hanghenion eu hystyried yn llawn, a chaiff eu barn a'u diddordebau eu gwerthfawrogi'n fawr. Maent yn symud o gwmpas yn rhydd gan wneud penderfyniadau ar yr hyn sy'n effeithio arnynt. Mae'r plant yn cyfathrebu'n dda â'r staff. Maent yn dweud wrth y staff pan fyddant eisiau mwy o fwyd drwy ddweud "*More"* a thrwy ddefnyddio ciwiau dieiriau megis pwyntio tuag at eu hoff fwydydd a diodydd, ac maent yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt gan eu bod wedyn yn cynnig bwydydd gwahanol iddynt. Er enghraifft, ar ôl i blentyn roi menyn ar wrap, gwnaethant benderfynu wedyn eu bod eisiau wrap blaen a chymerwyd camau gan y staff yn unol â hynny. Mae'r plant yn dewis chwarae y tu mewn ac yn yr awyr agored yn unol â'u dewis. Maent yn cymryd rhan mewn chwarae â dŵr, chwarae synhwyraidd a meysydd eraill o ddiddordeb megis chwarae yn y pwll tywod, ffrâm ddringo a'r llithren.

Mae'r plant yn hapus iawn ac yn teimlo'n ddiogel gyda'r gofalwyr sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Maent yn cael eu canmol a'u hatgoffa pa mor glyfar ydynt yn aml. Maent yn cael eu canmol am arllwys llaeth a dŵr eu hunain, ac am roi menyn ar eu wrapiau yn annibynnol. Maent yn teimlo'n ddiogel am eu bod wedi meithrin cysylltiadau a chydberthnasau agos â'r staff. Maent yn mynd at y staff yn ddigymell i gael maldod pan na fyddant yn teimlo'n dda iawn. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol o fewn ethos diogel y lleoliad. Caiff eu teimladau a'u hanghenion eu cydnabod a'u blaenoriaethu bob amser. Mae'r plant yn ceisio agosatrwydd gan staff sy'n dyner, gofalgar ac yn cynnig cymorth ar unwaith pan fydd angen hynny arnynt. Maent yn chwarae'n annibynnol ac yn gwybod bod y staff yn agos os bydd angen help arnynt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson ysgogol ac mae'r plant yn mynegi pa mor fodlon ydynt a faint maent yn mwynhau bod yno drwy wenu a chwerthin. Er enghraifft, roedd y plant yn llawn cyffro wrth iddynt gyrraedd y lleoliad, a gwnaethant ddisgwyl yn eiddgar i'r staff roi dillad tywydd gwlyb iddynt. Roedd y plant yn hapus wrth gael eu canmol am eu *“good sharing”* pan wnaethant rannu'r chwyddwydrau gyda ffrindiau. Mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i'r staff sy'n darparu anogaeth, esboniadau a deallusrwydd parhaus i'r plant. Er enghraifft, pan roedd y plant eisiau'r un botel chwistrellu dŵr, roedd digonedd o chwerthin i'w gael am fod y rheini sy'n gofalu amdanynt wedi cynnig dewisiadau amgen iddynt gyflawni eu canlyniadau dymunol.

Mae'r plant yn llawn cyffro ac yn brysur yn eu hamser chwarae, ac yn ymgolli yn y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Gwnaethant fwynhau'r profiadau synhwyraidd yn fawr, a chael budd llawn o'r cyfleoedd a ddarparwyd iddynt archwilio, symud o gwmpas a darganfod mwy am eu hamgylchedd. Mae'r plant yn archwilio'r gweadau, gliter a'r paent sydd ar gael iddynt yn llawn cyffro. Defnyddiodd y plant offer gwahanol yn eiddgar i dorri'r blociau rhew i weld beth oedd y tu mewn iddynt, a mynegwyd cyffro ganddynt pan ddaethant o hyd i wahanol anifeiliaid.

Mae'r plant yn defnyddio ystod eang o adnoddau sy'n addas ar gyfer eu hoedran i gyfoethogi eu dysgu a'u profiadau cymdeithasol sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Maent yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn dda. Er enghraifft, maent yn llwyddo i roi menyn ar dost a'i dorri, yn ogystal ag arllwys dŵr a llaeth yn annibynnol.

| Gofal a Datblygiad | Rhagorol |
|---|---|

Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'n gyson ar waith sy'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Maent yn gweithredu mewn ffordd ragweithiol ac effeithiol i reoli risgiau wrth iddynt godi a phan fydd hynny'n digwydd. Mae'r staff yn ofalus ac wedi ymrwymo'n llawn i hybu datblygiad pob plentyn yn y lleoliad, gan sicrhau eu diogelwch a'u llesiant bob amser. Er enghraifft, mae'r rheini sy'n mynd â'r plant ar y bws yn mynd gydag adnoddau argyfwng rhag ofn. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau i amddiffyn plant. Caiff eu hyfforddiant diogelu ei ddiweddaru'n rheolaidd. Mae'r staff yn rhoi arferion glanhau cadarn ac arferion hylendid ar waith yn gyson. Er enghraifft, maent yn diheintio'r arwynebau cyn amser bwyd ac yn sicrhau y caiff cyfarpar diogelu personol ei wisgo er mwyn paratoi bwydydd i'r plant. Maent yn sicrhau bod amrywiaeth o fwydydd maethlon yn cael ei roi gyda gofal iddynt a chaiff y plant eu goruchwylio bob amser, heb eu brysio. Mae'r staff yn sicrhau y caiff eu cewynnau eu newid gydag urddas, ac maent yn dilyn polisi newid cewynnau'r lleoliad ac mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Caiff cofnodion o ffurflenni meddyginiaeth a damweiniau eu cadw, ac mae'r rhain wedi'u dogfennu'n dda a chânt eu llofnodi gan y staff a'r rhieni. Maent yn monitro alergeddau'r plant yn ofalus yn ogystal â'u hanghenion unigol. Mae'r staff yn dilyn y cynlluniau gofal sydd ar waith i gefnogi'r plant sydd ag anghenion ychwanegol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant bob amser yn barchus, ymlaciol a chadarnhaol iawn, gan ddangos cynhesrwydd, caredigrwydd a gofal. Mae'r staff yn sensitif i anghenion y plant ac yn manteisio ar bob cyfle i wella'r rhyngweithio drwy ymateb iddynt yn gyson â gofal. Maent yn wirioneddol yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu, ac yn cynnig canmoliaeth ac anogaeth iddynt yn aml. Maent yn fodelau rôl ardderchog i'r plant, gan eu hannog i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' yn ystod amser byrbryd. Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn llwyddo i roi technegau tynnu sylw ar waith yn gyson i sicrhau bod y plant yn dysgu sut i rannu yn y ffordd fwyaf sensitif heb gael effaith ar deimladau ac emosiynau'r plant. Maent yn fedrus yn eu dealltwriaeth o wybod pryd a sut i gysuro'r plant. Roedd plentyn yn cael ei gofleidio'n agos gan aelod o'r staff pan nad oeddent yn teimlo'n dda.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion unigol, gan ddangos eu bod yn gofalu'n fawr amdanynt. Maent yn gweithio'n eithriadol o dda fel tîm, mae'r cyfathrebu a'r cydweithredu'n effeithiol iawn, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y plant. Mae'r staff yn ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth ragorol o gyfleoedd i chwarae a dysgu. Caiff arsylwadau eu cofnodi'n effeithiol, ac mae'r staff yn siarad yn hyderus am gynnydd y plant.

Mae'r staff yn hyderus wrth weithio gyda'r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac maent yn anelu at y canlyniadau gorau i'r plant, gan adolygu cynlluniau gweithgareddau ac adnoddau yn barhaus yn unol â'u hanghenion.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd — Rhagorol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau a pholisïau effeithiol iawn ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau yn llawn. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da iawn o dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob agwedd ar brofiadau'r plant yn ddiogel ac yn darparu sgiliau dysgu newydd iddynt sy'n cael eu hystyried yn ofalus. Maent yn sicrhau bod asesiadau risg manwl ar waith ar gyfer y defnydd hirdymor a dydd-i-ddydd o'r ardaloedd dan do ac awyr agored, yn ogystal ag ar gyfer ymweliadau. Maent yn cwblhau asesiadau risg dyddiol o'r ardal chwarae dan do ac awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw ffeil rheoli tân cynhwysfawr sy'n gyfredol gydag asesiadau risg tân ac ymarferion tân ynddo. Caiff gwiriadau cynnal a chadw'r lleoliad eu diweddaru'n rheolaidd. Maent yn cadw'r safle yn ddiogel tu mewn gyda system ddiogelwch electronig, ac mae'r safle tu allan yn ddiogel hefyd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnod o'r ymwelwyr sy'n ymweld â'r lleoliad a chaiff bathodynnau adnabod yr ymwelwyr eu gwirio wrth iddynt gyrraedd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd tu mewn yn groesawgar iawn ac yn agored a glân, gyda gwahanol ardaloedd yn cynnig cyfleoedd pwrpasol a chyfoethog ar gyfer profiadau dysgu newydd. Er enghraifft, ardaloedd chwarae synhwyraidd, crefftau, corfforol ac ardaloedd sy'n ehangu ar chwilfrydedd y plant. Maent yn cynnig ardal agored fawr y tu ôl ac wrth ymyl y lleoliad sy'n ddiogel ac yn darparu cyfleoedd rhagorol ar gyfer profiadau corfforol ac archwilio pellach. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthym am eu cynlluniau i ddatblygu'r ardal ymhellach, sydd wrthi'n cael ei hadeiladu. Mae'r ardal awyr agored yn darparu cyfleoedd ychwanegol i'r plant ddysgu sgiliau newydd yn ddiogel. Er enghraifft, dringo, chwarae â thywod, chwarae synhwyraidd, garddio a hambwrdd twff gydag adnoddau naturiol a gasglwyd o daith gerdded natur yn yr ardal leol. Mae'r ardal dan do yn ardal fawr sy'n darparu cyfleoedd pwrpasol i'r plant ymlacio, archwilio a chwarae'n greadigol. Mae byrddau a chadeiriau o faint addas ar gyfer gweithgareddau bwyta a phen bwrdd. Mae gan ardaloedd y toiledau gymhorthion ar gyfer y plant i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth bersonol. Caiff gweithiau celf a chrefft y plant eu dathlu gan roi ymdeimlad cryf o gyflawniad a pherthyn i'r plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhoi adnoddau dodrefn o ansawdd uchel dan do ac yn yr awyr agored sy'n ysgogi chwilfrydedd a diddordebau'r plant. Maent yn galluogi'r plant ddatblygu sgiliau newydd drwy amrywiaeth o gyfarpar rhagorol sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer profiadau cyffrous. Maent yn hybu cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol drwy eu hymarfer. Yn ychwanegol i'r ardaloedd agored yn yr awyr agored, mae'r gysgodfa yn yr awyr agored yn darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer ehangu ar brofiadau'r plant ymhellach. Mae'r ardal chwarae awyr agored wedi ei threfnu'n llwyddiannus ar gyfer y plant bron pob amser a gall y plant, o ganlyniad, ddewis chwarae y tu mewn neu'r tu allan fel y dymunant mewn amgylchedd dysgu sy'n eu galluogi i symud yn rhydd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Rhagorol**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gadarn iawn ar gyfer dyfodol y lleoliad ac maent yn drefnus iawn. Maent yn sicrhau bod yr holl bolisïau, gweithdrefnau, a dogfennau perthnasol ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u storio'n gyfrinachol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn wybodus iawn am eu cyfrifoldebau rheoleiddiol. Maent yn sicrhau bod yr holl ddogfennaeth yn drefnus ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Maent yn cadw cofnodion manwl o'r plant, ac mae'r rhain yn cynnwys y wybodaeth ofynnol berthnasol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio tuag at y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu ansawdd y gofal yn flynyddol drwy'r adborth gan y plant, rhieni, staff a'r asiantaethau allanol. Maent yn gweithio'n agos gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill, gan ymateb i'w hadborth gyda mentrau, rhaglenni, ymarferion a dulliau rheoli newydd. Mae'r ychwanegiadau hyn yn sicrhau bod y profiadau mae'r plant yn eu derbyn yn cael eu hadolygu'n barhaus ac y bydd myfyrio arnynt, gan osod targedau ar gyfer rhedeg y lleoliad yn llwyddiannus yn y dyfodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cefnogi eu tîm yn dda iawn. Maent yn sicrhau bod ffeiliau'r staff yn gywir ac yn cadw tystiolaeth gynhwysfawr o'r hyfforddiant helaeth a gwblhawyd ar gyfer datblygiad proffesiynol yr unigolyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod prosesau recriwtio staff a chyfnod sefydlu cadarn ar waith, a bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol a dilys. Maent yn sicrhau bod llwyddiant y tîm yn cael ei gyflawni drwy arfarniadau a sesiynau goruchwylio effeithiol, a gaiff eu dogfennu yn ffeiliau'r staff ac sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar lesiant, datblygiad a chyfleoedd hyfforddiant y staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn effeithiol wrth hyrwyddo arferion da cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal. Maent yn dangos sut mae'r holl staff yn cyfrannu at yr ethos a'r gwerthoedd a bod y tîm yn gweithio'n galed i gyflawni eu nodau i wella'r lleoliad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gydberthynas sefydledig ag ystod eang o weithwyr proffesiynol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill. Maent yn meithrin partneriaethau gyda'r teuluoedd o fewn y gymuned. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu lluniau a datblygiad y plant gyda'r rhieni a'r gofalwyr drwy ap we-ffurflen. Dywedodd y rhieni wrthym fod y staff yn hyfryd a chroesawgar, a bod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth wedi bod yn anhygoel. Maent yn teimlo bod eu plant yn hapus ac maent wedi sylwi ar welliant yng ngallu eu plant i gymdeithasu a chyfathrebu ers mynychu'r lleoliad. Gwnaethant ddweud, "*I couldn't be more happy or confident leaving my child in their care; they go above and beyond to ensure they are looked after, and they enjoy every day there."*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

ddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete